Remploy

Gweithredir gan MAXIMUS

Rhaglen Waith ac Iechyd

# Cefnogi pobl yn ôl i'r **gwaith**



Mae gwasanaeth newydd **Cymorth a Dargedir at Gael Swydd Rhaglen Waith ac Iechyd** yn helpu pobl yng Nghymru, sydd wedi bod allan o waith am 13 wythnos neu fwy, i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy.

Mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau

Wedi'i chyflawni gan **Remploy** a'i thanategu gan Rwydwaith Partneriaeth Cymunedol helaeth, mae ein rhaglen chwe mis ar gyfer ceiswyr gwaith yn:

### Gwella cyflogadwyedd

Gyda mynediad at offer ar-lein a chynnwys uwchsgilio.

### Magu hyder

Gyda chyngor gyrfaoedd, CVs a chyfweliadau.

### Helpu ddod o hyd i waith â thâl

Gyda mynediad at swyddi gwag mewn amrywiaeth o sectorau.

## Gwasanaeth newydd arloesol

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd wedi gweithio mewn diwydiannau y mae'r pandemig yn effeithio'n fawr arnynt, ac yn eu huwchsgilio a'u grymuso i geisio cyflogaeth gynaliadwy mewn sectorau sy'n tyfu.

Mae cefnogaeth ysgafn, o bell yn seiliedig ar dechnoleg ddigidol yn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth hyblyg i'r holl gyfranogwyr.

Mae ein tîm o Reolwyr Cyfrifon ymroddedig yn datblygu ac yn meithrin perthnasoedd â chyflogwyr lleol, fel y gallwn baru ymgeiswyr addas â swyddi gwag lleol.

### Os ydych yn gyflogwr yng Nghymru

Darganfyddwch sut y gallwn gefnogi eich anghenion recriwtio trwy ymweld â'n gwefan benodol ar gyfer:

**recruitmenthub.maximusuk.co.uk/**

### Os ydych yn bartner yng Nghymru

Darganfyddwch fwy am ein Rhwydwaith Partneriaeth Cymunedol ac am weithio gyda ni, trwy ymweld â:

**remploy.co.uk/CPNWales**